Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 964 (Cy. 166)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Aberdulais i Gylchfan Resolfen, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Awst 2025* |
| *Yn dod i rym* | *15 Awst 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A65, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Aberdulais i Gylchfan Resolfen, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Awst 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:00 o'r gloch ar 15 Awst 2025 ac sy'n dod am 20:00 o'rgloch ar 1 Rhagfyr 2025, neu i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Awst 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

## Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Terfynau Cyflymder 40 mya a 10 mya a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darnau o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A465 sy'n ymestyn o'r gyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Aberdulais hyd at y gyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen.

**ATODLEN 2**

**Cau Cilfannau**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cilfannau cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A465 rhwng Cylchfan Aberdulais a Chylchfan Resolfen.